Mathemateg Bellach

Mathemateg Bellach

Lleolir y cwrs yn Ysgol Bro Pedr

Cysylltwch â: Mrs A. Davies

Pam astudio Mathemateg Bellach?

Mae cymhwyster Mathemateg Bellach UG/A2 yn ehangu a dwysau'r fathemateg a ddysgir ym Mathemateg UG/A2. Cynllunnir Mathemateg Bellach UG i gydredeg â Mathemateg UG ym mlwyddyn 12.

Mae yna resymau da i ddilyn cwrs Mathemateg Bellach:

Os ydych yn berson sy'n mwynhau mathemateg, mae'n gwrs sy'n cynnig sialens a chyfle i archwilio cysyniadau mathemateg newydd neu fwy soffitigedig.

Mae myfyrwyr sy'n dilyn y cwrs yn cael eu gweld fel mathemategwyr abl gan brifysgolion a chyflogwyr.

Bydd yn eich galluogi i fynd yn eich blaen i ddilyn cwrs mathemategol ei natur mewn prifysgol.

Mae astudio Mathemateg Bellach yn baratoad arbennig ar gyfer y Brifysgol, yn enwedig os ydych am astudio cwrs ag elfen gref o fathemateg neu fathemateg perthynol fel Peirianneg, y Gwyddorau, Cyfrifiadureg neu Dechnoleg yn ogystal â Mathemateg ei hun. Mae nifer o brifysgolion yn annog myfwyr i ennill cymwysterau Mathemateg Bellach er mwyn gwella'u paratoad i ddilyn cwrs gradd, ac mae rhai prifysgolion blaenllaw nawr yn nodi Mathemateg Bellach fel cymhwyster mynediad i gyrsiau tebyg.

Hyd yn oed os nad yw myfyrwyr am ddilyn cyrsiau mathemateg ond bod ganddynt ddiddordeb yn y maes byddant yn mwynhau Mathemateg Bellach, ac mae cael y cymhwyster yn dangos bod gan y myfyrwyr sgiliau dadansoddol ardderchog, pa faes bynnag y byddant yn ei ddewis fel pwnc astudiaeth neu faes gwaith.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Y mae pob ymgeisydd Lefel UG yn sefyll tri phapur mydylol un awr a hanner yr un. Y mae pob ymgeisydd Lefel A2 yn sefyll chwe phapur mydylol un awr a hanner yr un. Cynigir cyfuniad o unedau Mathemateg Pur (FP1, FP2, FP3) ac Ystadegaeth (S2, S3) a Mecaneg (M2,M3).

Mae pob cwestiwn ar bob papur yn orfodol a phob papur yn werth yr un faint.

Beth yw strwythur y cwrs a'r dulliau asesu?

	Unedau	Cynnwys	Asesu
UG Blwydd yn 12	FP1	Mathemateg Pur	Arholiad
	FP2	Mathemateg Pur	Arholiad
	S2 neu M2	Ystadegaeth neu Mecaneg	Arholiad
U2 Blwydd yn 13	FP3	Mathemateg Pur	Arholiad
	S2 neu M2	Ystadegaeth neu Mecaneg	Arholiad
	S3 neu M3	Ystadegaeth neu Mecaneg	Arholiad

Mathemateg Bellach